| Enw'r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| | | |

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU

TYSTYSGRIF LEFEL MYNEDIAD

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE

ENTRY LEVEL CERTIFICATE

701/01

# Tystysgrif Lefel Mynediad

# CYMRAEG

A.M. DYDD GWENER, 24 Mawrth 2006

(1 Awr)

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion ar y llinellau priodol yn y llyfryn hwn.

Atebwch y cwestiynau fel y maent yn ymddangos yn y llyfryn hwn.

**Cwestiynau 4 a 5 yn unig**

Os nad ydych yn gallu deall cwestiynau 4 a 5 codwch eich llaw a bydd yr athro yn darllen y cwestiynau i chi.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Ni chewch ddefnyddio geiriaduron.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

**1.** Darllenwch y ffeithiau ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn. [10]

**SIOP Y DRE**

17, STRYD Y GWYNT,
ABERHONDDU

DILLAD ESGIDIAU

COTIAU BAGIAU

WYTHNOS NESAF:

SÊL HANNER PRIS

*(a)* Enwch **ddau** beth y gallwch chi eu prynu yn Siop y Dre. [½ + ½]

(i) ..............................

(ii) ..............................

*(b)* Beth yw cyfeiriad y siop? [1]

..............................

..............................

*(c)* Beth sy'n digwydd yn y siop yr wythnos nesaf? [1]

..............................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

## Y GWALLT HIRAF

Dyn o wlad Thai o'r enw Hoo Sateow sydd â'r gwallt hiraf yn y byd. Roedd e'n 18 oed y tro diwethaf iddo dorri ei wallt. Mae'n golchi ei wallt yn yr afon unwaith bob mis.



http://img.photobucket.com

*(ch)* Ble mae Hoo Sateow yn golchi ei wallt? [1]

..............................................................................................................................................



www.grg.org

## Y FENYW HYNAF

Roedd y fenyw hynaf yn y byd yn byw yn Ffrainc. Roedd hi'n 122 oed yn marw. Roedd hi'n byw yn iach ac yn dal i seiclo pan oedd hi'n gant oed.

*(d)* Ym mha wlad oedd y fenyw hynaf yn y byd yn byw? [1]

..............................................................................................................................................

*(dd)* Beth oedd y fenyw hynaf yn y byd yn dal i'w wneud yn gant oed? [1]

..............................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*



www.gigantism.com

## Y DYN TALAF

Robert Wadlow sy'n dal record y dyn talaf yn y byd. Roedd yn 8 troedfedd 11 modfedd. Roedd ganddo ddau frawd a dwy chwaer oedd yn tyfu fel pobl gyffredin. Roedd yn rhy dal i fynd ar fws, teithio mewn trên a hedfan mewn awyren.

*(e)* Sawl chwaer oedd gan Robert Wadlow? [½]

.................................... chwaer.

*(f)* Enwch **dair** ffordd o deithio oedd yn broblem i Robert Wadlow am ei fod yn rhy dal. [½ + ½ + ½]

(i) ..............................................................................................

(ii) ..............................................................................................

(iii) ..............................................................................................

## LLOND LLE O SANTAS

Daeth 4,260 o Santas i redeg ras yn y Drenewydd ym mis Rhagfyr. Dyma'r nifer mwyaf o Santas mewn un lle erioed. Daeth yr holl Santas er mwyn mwynhau a chodi arian at achos da.



www.newtownlive.co.uk

*(ff)* Pam daeth y Santas i'r Drenewydd? [2]

(i) ..............................................................................................

(ii) ..............................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**2.** Rydych chi eisiau archebu cryno ddisg (CD) ar y We. Mae'r cwmni eisiau i chi lenwi'r ffurflen hon er mwyn postio'r gryno ddisg i chi. Dewiswch un o'r rhestr hon a llenwch y ffurflen. [5]



| www.disgiau.com | | |
|---|---|---|
| **Teitl** | **Artist** | **Pris** |
| Cysgodion | Elin Fflur | £13 |
| Gyda'n Gilydd | TNT | £5 |
| Mwng | Super Furry Animals | £12 |

| Manylion y gryno ddisg | Eich manylion chi |
|---|---|
| Teitl: .......................................... | Enw: ............ .............................. |
| Artist: ....................................... | Cyfeiriad: ..................................<br>..................................<br>.................................. |
| Pris: .......................................... | Côd post: .................................. |
| www.disgiau.com | Cyfeiriad e-bost:<br>.................................................... |

**3.** Darllenwch y darn canlynol yn ofalus ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn. [10]

# GELERT

Mae hen stori yng Nghymru am Gelert, ci y Tywysog Llywelyn. Gelert oedd hoff gi Llywelyn am ei fod yn gi dewr a ffyddlon.

Un dydd, roedd Llywelyn yn hela mewn fforest oedd yn agos i'w gastell. Roedd ei wraig eisiau dod i weld yr hela ond roedd hi'n poeni am nad oedd neb i edrych ar ôl eu mab.

"Paid â phoeni, gall Gelert edrych ar ei ôl," meddai Llywelyn. "Gelert, aros yma i edrych ar ôl fy mab."

Edrychodd Gelert i lygaid ei feistr ac roedd Llywelyn yn gwybod ei fod yn deall beth oedd ei waith. Aeth Llywelyn i hela ac arhosodd Gelert i ofalu am y plentyn.

* * *

Aeth amser heibio, yna clywodd Gelert sŵn rhyfedd yn y tywyllwch. Cododd ar ei draed er mwyn amddiffyn y baban. O'r tywyllwch daeth blaidd mawr du gyda'i lygaid yn fflachio yn goch. Gwelodd Gelert ef yn edrych ar wely'r baban. Roedd yn rhaid i Gelert ei amddiffyn.

Neidiodd y ci ar y blaidd a dechreuodd y ddau ymladd yn ffyrnig. Wrth iddynt rowlio ar draws yr ystafell, tarodd y ddau y gwely a syrthiodd y baban allan a'r dillad gwely ar ei ben.

Ar ôl ymladd am hir, llwyddodd Gelert i ladd y blaidd ac roedd gwaed drosto a thros yr ystafell i gyd.

* * *

Daeth Llywelyn adref a gweld Gelert, y gwaed a gwely gwag. Roedd e'n meddwl bod Gelert wedi lladd y baban. Collodd Llywelyn ei dymer, tynnodd ei gleddyf allan a lladd Gelert yn syth.

Yna, symudodd y dillad gwely a gweld y baban yn cysgu'n dawel ar y llawr. Edrychodd yr ochr arall i'r gwely a gweld y blaidd mawr yn gorwedd yn farw.

Sylweddolodd yn syth ei fod wedi gwneud camgymeriad ofnadwy. Roedd e wedi lladd ei hoff gi, Gelert, y ci oedd wedi ymladd mor ddewr i amddiffyn ei fab.

*(a)* Ci pwy oedd Gelert? [½]

..........................................................................................

*(b)* Pa fath o gi oedd Gelert? [½ + ½]

(i) ..........................................................................................

(ii) ..........................................................................................

*(c)* I ble'r aeth Llywelyn i hela? [½]

..........................................................................................

*(ch)* Beth oedd gwaith Gelert tra oedd Llywelyn yn hela? [½]

..........................................................................................

*(d)* Disgrifiwch y blaidd. [1]

..........................................................................................

..........................................................................................

*(dd)* Pa anifail ddechreuodd yr ymladd? [½]

..........................................................................................

*(e)* Beth ddigwyddodd i'r baban yn ystod yr ymladd? [1]

..........................................................................................

*(f)* Pam roedd Llywelyn wedi lladd Gelert? [1]

..........................................................................................

*(ff)* Roedd Llywelyn yn hapus ac yn drist ar ddiwedd y stori. Pam? [2]

..........................................................................................

..........................................................................................

*(g)* Rhowch y geiriau hyn yn nhrefn yr wyddor:

ymladd; camgymeriad; gwely; cleddyf; tywyllwch; lladd. [2]

..........................................................................................

**Trosodd.**

**4.** Ysgrifennu llythyr. [15]



Dychmygwch eich bod chi wedi ennill gwobr o benwythnos mewn gwesty yng Nghaerdydd. Roeddech chi wedi mwynhau'r penwythnos yn fawr ond yn anffodus roedd problem gyda'r gwesty. Rydych chi eisiau cwyno. Ysgrifennwch lythyr at y rheolwr yn dweud:

(i) diolch am aros yno;
(ii) beth wnaethoch chi fwynhau;
(iii) beth oedd y broblem gyda'r gwesty;
(iv) beth rydych chi eisiau i'r rheolwr ei wneud.

Enw'r rheolwr: Mr Simon Jones, Gwesty'r Parc, Stryd y Frenhines, Caerdydd CF2 1DG

**Cofiwch:**

- ysgrifennu eich cyfeiriad chi a chyfeiriad y gwesty;
- ysgrifennu mewn paragraffau.

**Cymerwch ofal wrth osod y llythyr.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**5.** Ysgrifennu sgwrs. [10]



Rydych chi a'ch ffrind  wedi bod ar daith ysgol. Roedd un ohonoch wedi mwynhau ond y llall wedi cael amser diflas.

Ysgrifennwch y sgwrs rhwng y ddau ohonoch chi ar y bws ar y ffordd adref.

**Cofiwch sôn**:
- ble buoch chi;
- beth weloch chi;
- pam rydych chi'n anghytuno.

**Cymerwch ofal wrth osod y sgwrs a chofiwch ysgrifennu'n ddiddorol.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*